# CYFRAITH AILGYLCHU YN Y GWEITHLE YNG NGHYMRU

31 Ionawr 2024

wrap Cymru

Cymru yn ailgylchu
Wales recycles

Gweithredu ar Hinsawdd Cymru
Climate Action Wales

# Cynnwys

## Cyfraith Ailgylchu yn y Gweithle yng Nghymru

Cyflwyniad

Yr hyn mae'r gyfraith newydd yn ei gynnwys

Sut i baratoi

Y gefnogaeth sydd ar gael

Astudiaeth achos

# Ynglŷn â WRAP

- Sefydliad anllywodraethol sy'n gweithredu ar newid hinsawdd yw WRAP (the Waste and Resources Action Programme), sy'n gweithio'n fyd-eang ar fynd i'r afael ag achosion yr argyfwng hinsawdd a rhoi dyfodol cynaliadwy i'r blaned. Fe'n sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig yn 2000; rydym yn gweithio mewn 40+ o wledydd erbyn hyn.
- Yn gweithio ym mhedwar ban byd gyda llywodraethau, busnesau, a dinasyddion, a'n cenhadaeth yw gwneud y byd yn lle mwy cynaliadwy. Rydym yn tynnu pobl ynghyd, rydym yn gweithredu ar y ffeithiau, ac rydym yn sbarduno newid.
- Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i roi'r gyfraith Ailgylchu yn y Gweithle newydd ar waith.

# Rheoliadau newydd – 6ed Ebrill 2024*

- Bydd angen i holl weithleoedd, fel busnesau, y sector cyhoeddus, ac elusennau, wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy yn yr un modd ag y mae'r rhan fwyaf o aelwydydd yn ei wneud eisoes.
- Gwaharddiadau ar waredu holl wastraff bwyd i garthffosydd o eiddo annomestig.
- Gwaharddiadau ar fathau penodol o ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân rhag mynd i gyfleusterau llosgi a safleoedd tirlenwi.

Mae'n berthnasol i holl gasglwyr a phroseswyr gwastraff ac ailgylchu sy'n rheoli gwastraff sy'n debyg i wastraff domestig o weithleoedd.

** Mae gan ysbytai (y GIG a phreifat) ddwy flynedd ychwanegol i gydymffurfio â'r gofynion gwahanu. Mae'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd yn berthnasol o 6ed Ebrill 2024.*

# Gwastraff sy’n debyg i wastraff domestig

- Deunyddiau gwastraff fel y rhai a geir mewn cartrefi domestig
- Fe’u cesglir o gartrefi fel arfer gan awdurdodau lleol
- Hefyd yn cynnwys nwyddau trydan gwastraff bach a thecstilau heb eu gwerthu

Nid yw’n cynnwys:

- Gwastraff adeiladu
- Gwastraff diwydiannol
- Gwastraff amaethyddol

Heblaw am ddeunyddiau gwastraff a ailgylchir yn gyffredin fel y rhai a geir mewn cartrefi domestig.








# Pam?

- Mae Cymru eisoes yn dda iawn am ailgylchu yn y cartref, ac yn 1af ymhlith cenhedloedd y Deyrnas Unedig am ailgylchu o gartref – 65%.
- 3edd genedl orau'r byd am ailgylchu o gartref.
- Y nod yw sicrhau cyfraddau ailgylchu uchel ym mhob sector, nid o gartrefi'n unig.
- Gellid ailgylchu mwy na 70% o'r deunyddiau yn y ffrwd wastraff fasnachol.



# Pam?

**Mae ailgylchu’n lleihau allyriadau carbon**

- Mae 45% o allyriadau carbon yn ganlyniad i’r nwyddau a brynwn
- Daw 90% o golled bioamrywiaeth a straen dŵr o echdynnu adnoddau

Mae cynyddu ailgylchu hefyd:

- yn cynyddu symiau ac ansawdd deunydd eilgylch y gall cynhyrchwyr yng Nghymru ei ddefnyddio, ac yn lleihau’r defnydd o ddeunyddiau crai;
- yn cefnogi gweithleoedd i leihau eu gwastraff ac arbed arian, o bosibl;
- yn helpu’r economi greu Cymru werddach.

# Pam?

**Bydd hyn yn galluogi system ailgylchu ble bynnag mae unrhyw un yn gweithio, yn gorffwys, neu'n chwarae.**

# PWY?

Yn cynnwys:

- eiddo amaethyddol;
- bariau a thai cyhoeddus;
- lletyai gwely a brecwast, gwestai;
- arosfannau bysiau, gorsafoedd rheilffordd, porthladdoedd, meysydd awyr, hofrenfeydd;
- meysydd gwersylla a pharciau carafanau (ond nid carafanau unigol);
- cartrefi gofal, cartrefi gofal preswyl a chartrefi nyrsio;
- sinemâu;
- canolfannau cymunedol a neuaddau pentref;
- safleoedd adeiladu;
- sefydliadau addysg fel prifysgolion, colegau ac ysgolion;
- lleoliadau adloniant a chwaraeon, yn cynnwys canolfannau hamdden;
- ffatrïoedd;
- setiau cynhyrchu ffilm a theledu awyr agored;
- modurdai ar gyfer cynnal a chadw a thrwsio cerbydau;
- canolfannau garddio;
- adeiladau treftadaeth;
- parciau a chyrchfannau gwyliau;
- ysbytai;
- llyfrgelloedd ac amgueddfeydd;
- swyddfeydd;
- marchnadoedd awyr agored;
- fferyllfeydd, meddygfeydd doctoriaid, deintyddfeydd, swyddfeydd optometryddion, optegwyr, podiatryddion a chyfleusterau gofal sylfaenol eraill;
- mannau addoli;
- carchardai;
- bwytai a chaffis;
- gorsafoedd gwasanaeth a gorsafoedd petrol;
- siopau a chanolfannau siopa;
- meysydd sioeau;
- meysydd chwaraeon a stadia;
- gwerthwyr tecawê a gwerthwyr bwyd symudol;
- theatrau a lleoliadau celf;
- lleoliadau ar gyfer digwyddiadau dros dro fel gwyliau a sioeau, yn cynnwys digwyddiadau awyr agored;
- warysau; a
- gweithdai.

Os mai presenoldeb ar-lein yn bennaf sydd gennych, bydd angen ichi gydymffurfio â'r newidiadau ar gyfer unrhyw eiddo yr ydych yn ei ddefnyddio serch hynny.

# Mae tair rhan i'r cyfreithiau newydd

1. Y gofynion i wahanu
2. Gwaharddiadau ar losgi a thirlenwi
3. Gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd



# 1. Y gofynion i wahanu

Bydd angen casglu'r deunyddiau canlynol ar wahân:

- Papur a cherdyn
- Gwydr
- Metel, plastig, a chartonau (a deunyddiau eraill tebyg, er enghraifft, cwpanau coffi),
- Bwyd – dim ond ar gyfer mannau sy'n creu mwy na 5kg yr wythnos o wastraff bwyd
- Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE) heb eu gwerthu
- Tecstilau heb eu gwerthu



**Deunyddiau i'w cadw ar wahân pan fyddant yn cael eu cyflwyno i'r casglwr gwastraff**
**Deunyddiau ailgylchadwy a gasglwyd ar wahân i gael eu cadw ar wahân a dim eu cymysgu**

# 2. Gwaharddiadau ar losgi a thirlenwi

Llosgi (deunyddiau a gasglwyd ar wahân)

- Papur a cherdyn
- Metelau
- Plastig
- Gwydr
- Cartonau
- Bwyd
- Holl sWEEE
- Tecstilau heb eu gwerthu

Tirlenwi (deunyddiau a gasglwyd ar wahân)

- Papur a cherdyn
- Metelau
- Plastig
- Gwydr
- Cartonau
- Bwyd
- Holl sWEEE (yn cynnwys y rhai nas gwerthwyd)
- Holl decstilau (yn cynnwys y rhai nas gwerthwyd)

Gwaharddiad ar anfon holl wastraff pren o eiddo annomestig a domestig i dirlenwi

# 3. Gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd

- Gwaharddiad ar waredu holl wastraff bwyd i garthffosydd yn cynnwys drwy beiriannau mathru, dad-ddyfrio neu driniaeth ensymig.
- Bydd hyn yn dargyfeirio gwastraff bwyd o gael ei waredu ac yn ei anfon i Dreulio Anaerobig (*Anaerobic Digestion*/AD) ac yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Gwastraff bwyd i gael ei gasglu ar wahân yn y ffynhonnell o holl weithleoedd sy'n cynhyrchu 5kg neu fwy fesul wythnos.





# Gorfodi'r cyfreithiau newydd hyn

- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod deunyddiau yn cael eu gwahanu a'u casglu'n gywir, a bod y gwaharddiad ar anfon ailgylchu i dirlenwi neu i'w losgi yn cael ei ddilyn.
- Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod y gwaharddiad ar wastraff bwyd yn mynd i garthffosydd yn cael ei ddilyn.
- Os nad ydych yn cydymffurfio â'r gyfraith, gallai olygu dirwy i'ch gweithle.
- Mae meddianwyr eiddo yn gyfrifol am weithredoedd eu staff ac yn atebol amdanynt.


# Sut i Baratoi

**Darllenwch y Cod Ymarfer – mae'n cynnwys yr holl fanylion ar sut i gydymffurfio â'r rheoliadau**

[Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer i Gymru | LLYW.CYMRU]




# Gwybodaeth ar gael




- Gwefan Llywodraeth Cymru
- Canllawiau cyffredinol ar y newidiadau
- Cod Ymarfer
- [Ailgylchu yn y gweithle | LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru/ailgylchu-yn-y-gweithle)
- https://www.llyw.cymru/ailgylchu-yn-y-gweithle

# Cymorth gan WRAP Cymru

## Gwefan 'Y Busnes o Ailgylchu' newydd




busnesoailgylchu.wrap.org.uk

# Sut i Baratoi

## Deall eich gwastraff ac ailgylchu

Cynnal archwiliad gwastraff i ganfod pa wastraff sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd a pha ailgylchu sy'n digwydd eisoes

Ymhlith y meysydd o fewn gweithle sydd fwyaf tebygol o gynhyrchu gwastraff mae:

- Ceginau, caffis ar y safle, a stondinau bwyd:
  - Mannau paratoi bwyd – bwyd (gwastraff paratoi a bwyd wedi difetha), deunyddiau pacio fel metel, gwydr, cardbord, ffilmiau plastig a deunydd lapio.
  - Mannau bwyta bwyd – bwyd (gwastraff plât), gwastraff pecynnu fel caniau diodydd, poteli plastig a gwydr, cartonau diod, cardbord, a phapur;
- Ystafell staff/ystafell fwyta/swyddfa – papur, bwyd, a deunydd pacio;
- Mannau cyhoeddus fel cynteddau, neuaddau a siopau anrhegion
- Siopau anrhegion – papur a deunyddiau pecynnu fel cardbord; a thecstilau heb eu gwerthu a nwyddau trydanol bach heb eu gwerthu; a
- Llety ymwelwyr a gwyliau

# Atal gwastraff

**Bydd lleihau faint o wastraff rydych yn ei gynhyrchu'n helpu i arbed arian**

- Darparwch e-docynnau, arweinlyfrau electronig, gwybodaeth i dwristiaid a mapiau i ymwelwyr sydd ar gael ar ffonau clyfar;
- Cyfrannwch stoc dros ben neu stoc heb ei werthu;
- Defnyddiwch ddulliau marchnata di-bapur a chynhigiwch dderbynebau di-bapur drwy eu hanfon i gwsmeriaid drwy ebost;
- Prynwch nwyddau eilgylch, nwyddau y gellir eu hail-lenwi neu eu hailddefnyddio pan bynnag fo'n bosibl;
- Darparwch ffynhonnau dŵr i staff a chwsmeriaid eu defnyddio a defnyddiwch gwpanau, llestri a chyllyll a ffyrc ailddefnyddiadwy;
- Ar gyfer diodydd tecawê, anogwch eich cwsmeriaid i ddod â'u cwpan ailddefnyddiadwy eu hunain drwy godi tâl am gwpanau untro a
- Sicrhewch fod cyn lleied â phosibl o ddeunydd pacio ar eich bwyd a diod tecawê a bod y deunydd pacio a gaiff ei ddefnyddio yn gallu cael ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio.

# Casgliadau ar wahân

## Sefydlu cynllun ailgylchu sy'n cydymffurfio

Cyfrifoldeb perchennog y busnes fydd cydymffurfio.

## Ystyriwch y canlynol:

- Beth yw swm neu fath y gwastraff rydych yn ei gynhyrchu'n rheolaidd?
- A fydd cael casgliadau ailgylchu ar ddyddiau penodol o'r wythnos yn helpu atal gwastraff rhag cronni
- Efallai mai ychydig yn aml fydd yn gweithio'n well i chi.
- Os nad oes gennych lawer o le ar gyfer cynwysyddion y tu allan, a allech rannu biniau gyda busnesau eraill i helpu lleihau faint o gostau a lle y mae ei angen?
- A fydd angen casgliadau ar adegau penodol o'r diwrnod neu'r wythnos arnoch, h.y. ar ddiwedd bob dydd neu pan fo hurio/digwyddiad wedi dod i ben, er mwyn cyfrif am newidiadau yn symiau gwastraff a sicrhau diogelwch y safle.
- Siaradwch gyda'ch casglwr gwastraff presennol am eich anghenion ailgylchu newydd.
- Gofynnwch am ddyfynbrisiau gan amrywiaeth o gasglwyr er mwyn cael y pris gorau a'r gwasanaeth sy'n fwyaf addas i chi.

# Biniau

## Ble a sut byddwch yn storio eich gwastraff ac ailgylchu.

## Ystyriwch y canlynol:

- yn ddiogel a hygyrch i bobl, yn cynnwys defnyddwyr sydd ag anableddau, a'ch casglwr gwastraff;
- ddim mewn lleoliadau sy'n peri rhwystr, perygl tân neu'n rhwystro llwybrau dihangfa;
- darparwch ddigon o le;
- yn agos i ble caiff y gwastraff ac ailgylchu ei greu;
- yn daclus, yn lân, a heb lanast neu wastraff rhydd ac
- yn ddiogel ac nad ydynt yn caniatáu i wastraff neu ailgylchu ddianc.

# Cymorth gan WRAP Cymru

Adnoddau cyfathrebu
- Posteri, sticeri biniau
- Eiconau ffrydiau deunyddiau, yn cynnwys ffrwd newydd

[Ailgylchu yn y Gweithle: darluniau ar gyfer arwyddion a chynwysyddion ailgylchu | WRAP (wrapcymru.org.uk)]









# Gweithleoedd sy'n creu ac yn trin gwastraff bwyd

Mae'r gyfraith i wahanu ac ailgylchu gwastraff bwyd yn berthnasol i unrhyw eiddo sy'n creu mwy na **5kg o wastraff bwyd fesul wythnos**, fel:

- Gwestai
- Bwytai
- Caffis
- Tecawês
- Busnesau arlwyo (yn cynnwys y rhai mewn digwyddiadau fel stondinau bwyd)
- Neuaddau bwyta mewn canolfannau siopa
- Stadia chwaraeon
- Ffreuturau
- Tafarndai
- Swyddfeydd gyda ffreuturau, caffis neu gyfleusterau cegin
- Ysgolion, colegau, carchardai, cartrefi nyrsio ac ysbytai ac
- Unrhyw weithleoedd eraill sy'n gweini bwyd.

# Gwastraff bwyd a hylendid

Mae'r **Asiantaeth Safonau Bwyd** (www.food.gov.uk/cy) hefyd yn darparu arweiniad sy'n golygu bod angen ichi:

- storio bwyd mewn cynwysyddion y gellir eu selio sydd yn:
  - soled, a digon cryf i ddal gwastraff bwyd;
  - mewn cyflwr da – h.y. heb ddifrod neu holltau a allai alluogi plâu i gyrraedd y gwastraff neu achosi gollyngiadau ac
  - yn hawdd eu glanhau a'u diheintio;
- symud gwastraff bwyd a sbwriel arall o ardaloedd cyn gynted â phosibl a
- bod â digon o gyfleusterau storio gwastraff i storio a gwaredu gwastraff bwyd a sbwriel arall i'w cadw'n lân.

# Cymorth gan WRAP i leihau gwastraff bwyd

**Mae WRAP yn darparu cymorth i fusnesau leihau gwastraff bwyd drwy:**

- The Guardians of Grub (https://guardiansofgrub.com/), ymgyrch sy’n cefnogi busnesau Gwasanaethau Lletygarwch a Bwyd i leihau’r symiau syfrdanol o fwyd a gaiff ei wastraffu bob blwyddyn.
  [guardiansofgrub.com](https://guardiansofgrub.com)

- Map trywydd a phecyn adnoddau yw’r WRAP Food Waste Reduction Roadmap Toolkit (https://wrap.org.uk/resources/tool/food-waste-reduction-roadmap-toolkit), sy’n helpu busnesau bwyd i weithredu mewn modd wedi’i dargedu i leihau gwastraff yn eu gweithrediadau eu hunain, yn eu cadwyn gyflenwi, a chan eu cwsmeriaid.
  [wrap.org.uk/resources/tool/food-waste-reduction-roadmap-toolkit](https://wrap.org.uk/resources/tool/food-waste-reduction-roadmap-toolkit)






# Ymgysylltu

## Staff:


- Gofynnwch am syniadau ar sut y gallai cynllun weithio, oherwydd efallai eu bod wedi sylwi ar gyfleoedd neu faterion nad ydych wedi'u hystyried;
- Darparwch gyfarwyddiadau clir am yr hyn y dylent ei wneud;
- Darparu hyfforddiant i weithwyr parhaol, tymhorol a dros dro.
- Rhannwch wybodaeth am ailgylchu drwy gyfathrebu rheolaidd;
- Gofynnwch am adborth.

# Ymgysylltu

## Cleientiaid, ymwelwyr, cyflenwyr a gwerthwyr trydydd parti:

- Sicrhau bod holl randdeiliaid yn deall eu cyfrifoldebau yn unol â gofynion y gyfraith Ailgylchu yn y Gweithle newydd;
- Cynhwyswch leoliad biniau ailgylchu a gwastraff ar fapiau o’r lleoliad a thaflenni sy'n amlygu'r holl fannau ailgylchu a chasglu gwastraff pwrpasol gydag arwyddion clir;
- Hyrwyddwch argaeledd gwasanaethau ailgylchu i ymwelwyr ym mhob llenyddiaeth hyrwyddo ac egluro pam y dylent eu defnyddio ac
- Sicrhewch fod pob bin wedi'i labelu'n glir fel bod defnyddwyr yn gwybod pa eitemau i'w rhoi ym mhob bin.
- Gwnewch finiau ailgylchu mor weladwy â phosibl gydag arwyddion clir arnynt i helpu pobl i ddefnyddio'r biniau cywir. Gall wardeniaid ailgylchu fonitro cynwysyddion i sicrhau nad yw ymwelwyr yn achosi halogiad.

# Cymorth gan WRAP CYMRU




- Canllaw defnyddiwr ar sut i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau
- Templed PowerPoint i'w ddefnyddio mewn sesiynau briffio staff
- Cwestiynau Cyffredin
- Ebost – WalesRecycles@wrap.org.uk / CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk

# Cymorth gan WRAP CYMRU

**Canllawiau penodol ar gyfer sectorau, astudiaethau achos a gweminarau, ar sut i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd ar gyfer y sectorau canlynol:**

- Busnesau bach a chanolig (SME) – 30 Ion 10yb
- Cyfleusterau adloniant a hamdden (yn cynnwys meysydd gwersylla, chalets, cabanau gwyliau, gwestai, carafanau) 31 Ion 10am
- Manwerthu – 6 Chwe 10yb
- Lleoliadau preswyl (yn cynnwys cartrefi gofal) – 6 Chwe 2yh
- Lletygarwch a gwasanaethau bwyd – 7 Chwe 10yb
- Digwyddiadau awyr agored – 8 Chwe 2yh
- Lleoliadau addysg a phrifysgolion – 20 Chwe 10am

# Crynodeb

- 6 Ebrill 2024
- Yn berthnasol i holl weithleoedd
- Gofyniad i wahanu ar gyfer ailgylchu
- Dim gwastraff bwyd i garthffosydd
- Gwaharddiadau ar ffrydiau gwastraff penodol yn cael eu hanfon i losgi a thirlenwi


Bluestone
National Park Resort

# O Ddiffeithwch Ecolegol i Warchodfa Natur





“Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Bluestone am ddatgan enillion BNG o fwy na 50% – mae hyn yn cyd-fynd â disgwyliadau ar Warchodfa Natur WT”. Vincent Ganley MD, Ymgynghoriaeth Kent WT.

>850 o staff – bil cyflog £14M – cynllun cymhelliant cyfranddaliadau 30% – 200,000 o westeion – 40% ym Mhenfro am y tro cyntaf – 45% o westeion yn gadael y gyrchfan – 97% yn dweud fod cynaliadwyedd yn bwysig – 89% yn dweud y buasent yn talu mwy am nwyddau cynaliadwy

# Cynaliadwyedd


**Diffiniad o Ddatblygu Cynaliadwy:** Datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw (Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, 1987, t 43







# Ôl-troed Carbon



# Ynni

| | 2020 | KgCO$^2$e | 2019 | KgCO$^2$e | 2018 | KgCO$^2$e |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Electricity, kwh | 5,873,932 | 1,369,449 | 7,957,593 | 2,033,961 | 8,001,179 | 2,264,894 |
| Biomass | 3,608,498 | 55,751 | 6,587,142 | 102,957 | 6,424,125 | 96,747 |
| LPG kwh | 239,051 | 55,053 | 770,134 | 177,354 | 103,951 | 157,908 |
| Diesel kwh | 221,042 | 56,516 | 363,200 | 94,516 | 47,125 | 123,795 |
| Kerosene kwh | 301,298 | 78,229 | 653,894 | 169,842 | 571,493 | 139,594 |
| Total Kg CO$^2$e | 10,243,821 | 1,614,998 | 16,331,963 | 2,578,630 | 15,147,873 | 2,782,938 |
| Tot tonnes CO$^2$e | | 1,615 | | 2,579 | | 2,783 |

**Mae Bluestone wedi lleihau ei allyriadau Cwmpas 1 a 2 gan 92.5% ers 2018, gan gynyddu eu refeniw gan fwy na 50% ar yr un pryd**

## STREAMLINED ENERGY & CARBON REPORTING STATEMENT


Emissions data in respect of the 2022 reporting period, based on Operational Control is as follows:

| Emission Type | $CO_2$e tonnes (Dual Reporting Methodology) | | |
|---|---|---|---|
| | Location Based | Market Based (Supplier Specific) | Var. % |
| Scope 1: Operation of Facilities | 0.84 | 0.84 | 0.0% |
| Scope 1: Combustion | 201.11 | 201.11 | 0.0% |
| TOTAL Scope 1 | 201.95 | 201.95 | 0.0% |
| Scope 2: Purchased Energy | 1461.06 | 1.27 | -100.0% |
| TOTAL Scope 2 | 1461.06 | 1.27 | -100.0% |
| Scope 3: Indirect Energy use | 9.64 | 9.64 | 0.0% |
| TOTAL Scope 3 | 9.64 | [illegible] | 0.0% |
| Total | 1672.65 | 212.86 | -87% |
| Other Emissions: Informative Purposes | | | -0.0% |

CALOR
Futuria







# Gwastraff









£££

2022 a 23
llai na 0.5% i dirlenwi







50% yn fwy o ££££

# Gwastraff

## Ei fesur i'w reoli!


**Food Waste - NRG Lab**

| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Month | Date | Day | Covers | Spoilage Waste (kg) | Preparation Waste (kg) | Plate Waste (kg) |
| May | 5/2/2023 | Tuesday | 108 | 1.50 | 3.20 | 3.20 |
| May | 5/3/2023 | Wednesday | 133 | 0.75 | 5.00 | 7.10 |
| May | 5/4/2023 | Thursday | 183 | 0.50 | 4.80 | 4.50 |
| May | 5/5/2023 | Friday | 194 | 1.20 | 7.60 | 3.90 |
| May | 5/6/2023 | Saturday | 84 | 1.80 | 4.20 | 4.80 |
| May | 5/7/2023 | Sunday | 99 | 1.00 | 5.60 | 5.20 |
| May | 5/8/2023 | Monday | 188 | 0.00 | 5.10 | 7.20 |
| May | 5/9/2023 | Tuesday | 146 | 0.50 | 4.80 | 4.20 |
| May | 5/10/2023 | Wednesday | 121 | 0.90 | 3.90 | 4.90 |

**F&B Food Waste in Outlets**

Cost of Food Waste Total

| | January | February | March | April | May | June | July | August | September | October | November | December | Grand Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blackpool Mill | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £404 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £404 |
| Camp Smokey | £0 | £0 | £559 | £1,241 | £1,143 | £510 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £3,453 |
| FHG | £0 | £563 | £3,789 | £3,036 | £2,055 | £1,086 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £10,529 |
| Knights Tafarn | £0 | £0 | £569 | £1,209 | £1,565 | £1,002 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £4,345 |
| NRG Lab | £505 | £527 | £570 | £666 | £548 | £342 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £3,158 |
| Oak Tree | £0 | £0 | £922 | £1,220 | £1,194 | £670 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £4,006 |
| Serendome | £188 | £1,428 | £1,642 | £2,727 | £1,999 | £1,197 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £9,181 |
| Staff Canteen | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Ty Coffi | £0 | £116 | £398 | £423 | £391 | £305 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £1,633 |
| Grand Total | £693 | £2,634 | £8,449 | £10,522 | £8,895 | £5,516 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £36,709 |




**Daily Handover 2023**

| Date | Outlet | Name | Todays Budget | Todays Actuals | Up or Down | U | Dow |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6/1/2023 22:05 | Knights Tafarn | Karen Hawkins | £4,717.00 | £4,463.00 | Down | | 254 |
| 6/3/2023 22:35 | Knights Tafarn | Karen Hawkins | £5,625.00 | £6,927.00 | Up | 1302 | |
| 6/4/2023 22:29 | Knights Tafarn | Ben Cloake | £5,025.00 | £5,203.00 | Up | 178 | |
| 6/7/2023 22:21 | Knights Tafarn | Karen Hawkins | £4,525.00 | £5,492.00 | Up | 967 | |
| 6/8/2023 21:33 | Knights Tafarn | Ian Johnson | £4,525.47 | £4,846.86 | Up | 32124 | |
| 6/9/2023 21:46 | Knights Tafarn | Karen Hawkins | £4,425.54 | £5,761.47 | Up | 1335.93 | |
| 6/11/2023 22:22 | Knights Tafarn | Ian Johnson | £5,425.40 | £6,268.55 | Up | 84301 | |
| 6/12/2023 20:56 | Knights Tafarn | Ian Johnson | £3,245.54 | £3,403.85 | Down | | 158.31 |

| Food Waste Done? | Food Waste in kg? | Top Waste Item? |
|---|---|---|
| Yes | 23 | Chips and rice |
| Yes | 23 | chips and rice |
| Yes | 20 | chips , sauces, rice, penne |
| Yes | 17 | Rice and chips |
| No | 0 | Pasta |
| Yes | 18 | Random plate waste |
| No | 0 | Pasta and rice |
| No | 0 | Pasta and chips |

# Economi Gylchol








[Astudiaeth Achos Economi Gylchol o Bluestone National Park Resort – YouTube]










*"Fe wnaeth lefel yr egwyddorion economi gylchol a roddwyd ar waith ar draws y sefydliad wneud argraff dda iawn arnaf i. Ymddangosai Bluestone eu bod wedi gwreiddio'n llwyr yn yr economi ranbarthol drwy eu gwaith gydag elusennau rhanbarthol a'u hymgysylltu â'r awdurdod lleol i gefnogi prosiectau sy'n cyflawni gwerth cymdeithasol. Buaswn yn eu disgrifio fel enghraifft wych o sefydliad angor."*

Circular Economy Innovation Communities





Chwyldro Cylchol Circular Revolution

# Gwastraff

Halogiad wedi gostwng gan 50%













# Cefn y tŷ
**Does dim angen iddo gostio ffortiwn…**














# Cenedlaethau'r Dyfodol

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015




### A Resilient Wales

*Welsh Government should commit to large-scale habitat restoration, creation and connectivity throughout Wales, which includes setting statutory targets for nature recovery and specific species recovery measures to help prevent extinction.*

**What Bluestone is doing**

**Governance**
- Head of Corporate Responsibility reports directly to CEO.
- Team Planet committee (sustainability) made up of staff from all departments meets monthly to discuss issues and make recommendations to the Board - all TP members are paid extra for part in Committee.
- Environmental Efficiency Manager chairs the Leadership Energy Committee (CEO, Directors etc).
- Green Key accredited.
- BiTC Member
- Zero Carbon Forum Member

**Sustainable Travel**
- We provide complimentary buses for over 100 staff.
- Our staff app (700 users) has a car sharing function.
- Three year investment in decarbonising the resort fleet.

| | | |
|---|---|---|
| | Goal 15. Protect, restore and promote sustainable use of terrestrial ecosystems, sustainably manage forests, combat desertification, and halt and reverse land degradation and halt biodiversity loss | |

| A journey to | Contributing towards (businesses can start from either the goal or business area perspective) | |
|---|---|---|
| **A healthier Wales** | **UN Goals** | **Related business areas** |
| "A society in which people's physical and mental well-being is maximised and in which choices and behaviours that benefit future health are understood" | Goal 3. Ensure healthy lives and promote well-being for all at all ages | **Inititiatives to support physical and mental health of colleague including H&S training and awareness**<br><br>**Facilitating and incentivising active travel** |
| | Goal 6. Ensure availability and sustainable management of water and sanitation for all | |

| A journey to | Contributing towards (businesses can start from either the goal or business area perspective) | |
|---|---|---|
| **A more equal Wales** | **UN Goals** | **Related business areas** |
| | Goal 1. End poverty in all its forms everywhere | **Fair Work Dimensions:**<br>- Fair Reward<br>- Employee Voice and Collective Representation<br>- Security and flexibility<br>- Opportunity for acces, growth and progression<br>- Safe, Healthy and Inclusive working environment<br>- Legal rights respected and given substantive effect<br><br>**Providing educational and training opportunities for local people**<br><br>**Creating and implementing EDI Strategy** |
| A society that enables people to fulfil | Goal 4. Ensure inclusive and equitable quality education and promote lifelong | |





Rydym yn ymwybodol mai cyfyngedig yw'r arwyddion Cymraeg o amgylch y gyrchfan – ac y gallem wneud mwy i'n gwesteion sy'n siarad/dysgu Cymraeg. Mae'n bwysig nodi fod gennym gyfle ardderchog i hyrwyddo/codi ymwybyddiaeth am yr iaith, yn enwedig ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg (sef y mwyafrif o'n gwesteion). Rydym yn datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â hyn.

# Honiadau Gwyrdd

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA): Cod Honiadau Gwyrdd 2021.

- claims must be truthful and accurate
- claims must be clear and unambiguous
- claims must not omit or hide important relevant information
- comparisons must be fair and meaningful
- claims must consider the full life cycle of the product or service
- claims must be substantiated




**Twristiaeth gynaliadwy**

Fe'i diffinnir gan y Cenhedloedd Unedig fel:

**"twristiaeth sy'n ystyried ei heffeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y presennol a'r dyfodol yn llawn, gan fynd i'r afael ag anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd a chymunedau sy'n derbyn ymwelwyr."**


At hynny, dywedant fod twristiaeth gynaliadwy yn:

**"cyfeirio at agweddau amgylcheddol, economaidd a diwylliannol-gymdeithasol datblygu twristiaeth, a bod rhaid taro cydbwysedd addas rhwng y tri dimensiwn hwn i sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor"**

# Arfer Gorau yn y Sector ac yn Genedlaethol

# Cydnabyddiaeth Genedlaethol










[Bydd y gyfraith ailgylchu yn y gweithle newydd yn helpu Cymru fod yn genedl ddiwastraff – Wales Online]

[Astudiaeth Achos Economi Gylchol o Bluestone National Park Resort – YouTube]

[Bluestone | Busnes Cymru (llyw.cymru)]



# Vision Canvas

December 2023 | v4.0

bluestone
NATIONAL PARK RESORT

| | |
|---|---|
| Our Purpose | To make people happy, naturally |
| Our Brand Values | Free Range \| Sense of Place \| Differentiated \| Sense of Person |
| Our Behaviours | Genuine Care \| True Ownership \| Grow as a Team |
| Our Differentiator | A family resort in the UK's only Coastal National Park |
| 10 Year Vision Statement | **To be the UK's most-loved holiday destination**<br>UK's first energy self-sufficient resort.<br>Historically Carbon Neutral.<br>30%+ employee ownership.<br>Ranked No. 1 in *Which?* Survey. |

## 3 Year Picture

Date | Revenue | EBITDA

**Love our People**

We will demonstrate our commitment to our people and community by creating an environment that supports health, wellbeing, inclusivity and diversity

**Refurb & Reimagine**

We will invest in our facilities to futureproof our business and deliver positive guest experiences considering capacity, accessibility, hybrid experiences & climate resilience

**Digital Evolution**

We will embrace technology to enable our growth, streamline our ways of working and deliver cutting edge services for our guests

**Protect our Planet**

We will strive to protect our planet by implementing essential measures to achieve Net Zero by the year 2040.

**Make 'More' Guests Happy**

We will provide outstanding guest experiences and fuel our growth with a focus on maximising reach in existing markets.

**Measurables**

1. Accommodation Revenue
2. Secondary Spend
3. Repeat Bookings
4. Target Market ACORN
5. Guest NPS
6. Employee NPS
7. Employee Attrition
8. Foundation
9. Payroll to Sales
10. Health & Safety ROSPA
11. Carbon Footprint


bluestone
CAREERS

Busnes Cymru | Business Wales

# Busnes Cymru

Cael y cymorth y mae ei angen arnoch



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ionawr 2024

# Cymorth Busnes

•Busnes Cymru yw'r gwasanaeth cymorth busnes, wedi'i ariannu'n llawn, gan Lywodraeth Cymru, sy'n helpu busnesau Cymru ac egin entrepreneuriaid gael mynediad at yr wybodaeth, y cyngor, a'r cymorth y mae ei angen arnynt i ddechrau, rhedeg, a thyfu eu busnesau.

•Dim ots ble mae busnes arni yn ei gylch oes, o'r camau cyntaf i gyfnod twf, yn sefydledig, yn ehangu, neu'n aeddfedu, mae gan Busnes Cymru'r sgiliau, y profiad a'r wybodaeth i arwain a chynorthwyo uchelgeisiau'r busnes.

•Mae'r lefel o gefnogaeth yn cael ei deilwra yn ôl angen y busnes ac rydym yn cynnig cyfuniad o gymorth ar-lein ac wyneb yn wyneb, ynghyd â gweithdai a chyngor unigol.



## Beth?

- Cyngor busnes cyffredinol
- Cyngor ar dendro
- Cyngor ar gydraddoldeb, amrywiaeth ac adnoddau dynol
- Cymorth masnachu rhyngwladol
- Porth Sgiliau
- Mentora busnes
- Datgarboneiddio

## Sut?

- Cymorth ar-lein
- Gweithdai a Gweminarau
- Cymorth 1 i 1



# Cefnogaeth Datgarboneiddio

- Effeithlonrwydd ynni
- Systemau Rheoli Amgylcheddol
- Cyfrifiadau allyriadau
- Cynlluniau lleihau carbon
- Ynni adnewyddadwy
- Rheoli gwastraff
- Sgiliau Gwyrdd
- Trafnidiaeth Gynaliadwy
- Cydymffurfio â'r gyfraith
- Addewid Twf Gwyrdd

green growth pledge

addewid twf gwyrdd






Get fully funded support for starting your own business by clicking on the link above




Get fully funded support for starting your own business by clicking on the link above

Busnes Cymru | Business Wales



gareth.davies@businesswales.org

03000 6 03000

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Unrhyw gwestiynau?



# Diolch
# Thank you

WalesRecycles@wrap.org.uk

CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk

wrap Cymru

Cymru yn ailgylchu
Wales recycles

Gweithredu ar Hinsawdd Cymru
Climate Action Wales